# Crynodeb Cyfarfod diweddar o Gyngor Cymuned Llangywer (cyn cadarnhau'r Cofnodion)

| Dyddiad | Datgan Buddiant | Presennol ac Ymddiheuro | Penderfyniadau a gytunwyd arnynt |
|---|---|---|---|
| 12/9/22 | Dim | **Presennol:** Geraint Roberts (Cadeirydd), Clwyd Davies, Eleri Jones, Emyr Jones, Gwyn Roberts, Tyly Roberts, W D Williams Lis Puw, Clerc<br><br>**Ymddiheuriadau:** Neb. | Trafferthion ar y ffordd: Cytunwyd y dylid cael llinellau dwbl melyn ar hyd y ffordd o'r orsaf wrth bont Mwnwgl y Llyn hyd at y groesffordd yn Llanuwchllyn.<br><br>Cytunwyd i ofyn i Barc Cenedlaethol Eryri a ellid rhoi ardoll o 10% ar y ffi parcio er budd trigolion y gymuned.<br><br>Ariannol: Derbyniwyd adroddiad llawn. Daeth yr ail hanner o'r praesept i law ar 31/8/22, £2125.00 . Cytunwyd i dalu £210 i Gyngor Gwynedd am archwilio'r cyfrifon. Cytunodd y Cyngor mai eu bwriad oedd talu 20% TWE i'r Clerc, a bod y Clerc yn talu hwn i HMRC ar ôl derbyn y cyflog blynyddol; nid oedd y Cyngor wedi ystyried cynnwys TWE wrth iddynt ystyried lefel cyflog y Clerc yn y gorffennol.<br><br>Trafodwyd cynllun Tilhill wrth Tŷ Tan y Graig a chyfarwyddwyd y Clerc i anfon gwrthwynebiad clir at y swyddfa.<br><br>Cytunodd Clwyd Davies i gynrychioli'r Cyngor yng Ngwyl Cyhoeddi Eisteddfod Powys.<br><br>Mynegwyd pryder am bla o lygod mawr yn Llangywer a chytunodd y Clerc i gysylltu gyda'r Adran Amgylcheddol i fynegi'r pryder hwn. |